
# Prosiect Cyfeirio Cymunedol

## Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr




**Gweithio gyda'n gilydd i'ch cysylltu â gwybodaeth a gweithgareddau yn eich cymuned i helpu eich iechyd a'ch lles**

BAVO



# Gwneud i bob cyswllt gyfrif drwy eich cysylltu â'ch cymuned

## Beth yw Cyfeirio Cymunedol?

Bydd ein gwasanaeth yn helpu pobl ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr i fanteisio ar wasanaethau, gwybodaeth a chyngor ar lefel gymunedol. Ei nod yw helpu pobl i gynnal neu adennill eu bywydau annibynnol ac atal eu hamgylchiadau rhag dirywio i'r fath gyflwr lle y gallai fod angen lefel uwch o gymorth arnynt.

Ein nod yw:

- cynyddu dealltwriaeth o ddewisiadau;
- cefnogi a grymuso pobl;
- gwella lles cymdeithasol ac emosiynol;
- hybu annibyniaeth;
- lleihau unigedd, unigrwydd ac allgáu cymdeithasol.



# Rydym yn wasanaeth un i un, person-ganolog i CHI!

## Ar gyfer pwy mae'r gwasanaeth?

- Pobl hŷn (50 + oed);
- Pobl ag anableddau dysgu;
- Pobl sy'n byw gyda dementia;
- Gofalwyr unrhyw rai o'r uchod.

Gallwn hefyd weithio'n agos gydag unigolion sy'n byw gyda chyflyrau iechyd meddwl ysgafn yn rhan ddwyreiniol Pen-y-bont ar Ogwr a gyda theuluoedd mewn cysylltiad â'n Canolfannau Cymorth Cynnar.

**Gellir derbyn cyflwyniad gan unrhyw un gan gynnwys gan yr unigolyn ei hun.**





## Beth all Cyfeirwyr ei wneud i chi?

Gallwn eich cefnogi i gymryd camau cadarnhaol i wella eich iechyd a'ch lles, gwella eich rhyngweithio cymdeithasol a'ch helpu i fwynhau bywyd mwy annibynnol o fewn eich cymuned.



Drwy gael sgwrs un-i-un, gallwn ddarparu gwybodaeth am wasanaethau a grwpiau lleol i weddu i'ch anghenion ac ehangu eich rhwydwaith cymdeithasol!

Gallwn eich cyflwyno i lawer o weithgareddau gan gynnwys gwirfoddoli, celf a chrefft, garddio, cyrsiau iechyd a lles, cyngor ar fudd-daliadau, cynlluniau cyfeillio neu grwpiau cymdeithasol cymunedol lleol. Mae'r rhestr yn ddiddiwedd.

# Gallwn dreulio amser yn dod i'ch adnabod chi a'r hyn sy'n bwysig i chi

**Gallwn weithio gyda'n gilydd i'ch helpu i gymryd y camau nesaf.**

I'r rhai sydd angen cymorth ychwanegol, gallwn eich rhoi mewn cysylltiad â gwasanaethau eraill i'ch helpu i gael y cymorth sydd ei angen arnoch.



## Rydyn ni’n darparu wyneb cyfeillgar, clust i wrando a llaw sy’n arwain i bobl yn eich cymuned.

**Cysylltwch â BAVO i drafod eich opsiynau:**
**Ff: 01656 810400**
**E: communitynavigator@bavo.org.uk**
**www.bavo.org.uk/community-navigators**

Wedi’i ariannu drwy Gronfa Gofal Integredig Llywodraeth Cymru. Yn gweithio mewn partneriaeth â Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg a Rhaglen Cymunedau Cysylltiedig Cadarn Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar gyfer Pen-y-bont.

**Ydych chi'n grŵp lleol ac yr hoffech gofrestru neu hyrwyddo eich gweithgareddau?**

**Cofrestrwch gyda infoengine heddiw!**

**Ewch i infoengine.cymru**

GIG CYMRU NHS WALES | Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg University Health Board

Llywodraeth Cymru Welsh Government

Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr BRIDGEND County Borough Council

Also available in English • Tachwedd 2019 • ©BAVO
Rhif cwmni: 07691764 • Rhif cofrestru’r elusen: 1146543